



Sut y dyfarnir deilliannau dysgu ar gyfer blwyddyn academaidd 2019/20?

Cymwysterau Galwedigaethol



O 22 Mai 2020

Cymwysterau Galwedigaethol

Cefndir

Ar 9 Ebrill, derbyniodd Ofqual gyfarwyddyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer Addysg ar sut y disgwylir i gymwysterau technegol gael eu dyfarnu ar gyfer 2019/20. Mae natur y cymwysterau hyn yn amrywiol, ac fe'u cynigir ar draws nifer o wahanol gyrrff arholi yng Nghymru a Lloegr, sy'n achosi sefyllfa gymhleth.

Mae'r cyfarwyddyd yn datgan y dylai'r holl fyfyrwyr sy'n astudio'r cymwysterau hyn dderbyn canlyniadau yn ystod yr haf hwn, er mwyn iddynt allu symud at addysg uwch neu gyflogaeth.

Beth mae hyn yn ei olygu i mi, fel dysgwr galwedigaethol?

Mae hyn yn golygu y dylech dderbyn canlyniad sy'n adlewyrchu y gwaith caled rydych wedi ei wneud eleni, lle bynnag fo'n bosib. Bydd hyn yn digwydd o fewn fframwaith sy'n sicrhau bod safonau yn cael eu cynnal mor gyson â phosib. Gosodir y canlyniadau o fewn 'fframwaith rheoleiddiol eithriadol'.

Sut fydd y Fframwaith Rheoleiddiol Eithriadol yn gweithio?

Mae Ofqual wedi gosod dulliau wedi'u caniatáu o fewn eu 'Fframwaith Rheoleiddiol Eithriadol'. Mae hyn yn caniatáu tri chategori o gymhwyster:

Categori 1	Cymwysterau a ddefnyddir i symud at addysg uwch neu bellach
Categori 2	Cymwysterau sydd â mwy nag un pwrpas/cymysg (symud at addysg uwch, bellach neu gyflogaeth)
Categori 3	Cymwysterau sy'n arddangos gallu galwedigaethol neu drwydded i ymarfer

Yn dibynnu ar yr uchod, bydd un o dri dull yn cael ei ddefnyddio:

1. Canlyniadau wedi eu hamcangyfrif/cyfrifo

Mae hyn yn berthnasol i gymwysterau yng Nghategori 1 a 2. Yma, bydd athrawon yn amcangyfrif y canlyniad y byddech chi wedi ei dderbyn pe byddech wedi cwblhau'r cwrs eleni, gan ddefnyddio'r dystiolaeth sydd ar gael iddynt.

2. Addasiadau

Mae addasiadau yn berthnasol i gymwysterau yng nghategori 2 neu 3, lle na ellir amcangyfrif canlyniadau, ac mae dysgwyr yn cwblhau rhaglenni astudio lle mae'r prif nod yn gysylltiedig â gallu galwedigaethol neu broffesiynol.

Mae addasiadau yn gweithio mewn nifer o ffyrdd, yn dibynnu ar y corff dyfarnu. Maent yn cynnwys newid y ffordd mae asesiadau'n cael eu darparu, er enghraifft, prawf ar-lein yn hytrach na phapur, neu gynnal asesiadau o bell yn hytrach nag wyneb yn wyneb.

3. Oedi

Defnyddir oedi fel y dewis olaf, lle mae'n amlwg nad yw amcangyfrif nac addasu'n bosib. Bydd cymwysterau megis y rhai sy'n cynnwys trwydded i ymarfer neu'r rhai a ystyrir yn 'risg uchel' yn disgyn o dan y dull hwn.

Sut byddaf yn gwybod pa rai o'r uchod sy'n berthnasol i fy nghymhwyster?

Ar hyn o bryd, rydym yn disgwyl gwybodaeth bellach gan gyrff dyfarnu yn datgan i ba grŵp mae cymwysterau yn perthyn. Byddwn yn cyhoeddi rhagor o wybodaeth ar ôl ei derbyn, ond mae gwefan Ofqual yn cynnwys cit offer i'ch helpu chi â hyn. Gweler dolenni defnyddiol isod.

Pryd fyddaf yn derbyn fy nghanlyniadau?

Rydym yn amcangyfrif y byddwch yn derbyn eich canlyniadau ar yr un adeg â chanlyniadau lefel UG/SU/TGAU. Efallai bydd hyn yn amrywio yn dibynnu ar y categori mae eich cymhwyster yn perthyn iddo, ac a oes angen cwblhau asesiad ar y safle.

Rhagor o Wybodaeth

Am ragor o wybodaeth, dilynwch y diweddariadau ar y wefan eich corff dyfarnu, er enghraifft, City and Guilds, BTEC Pearson, etc. Yn ogystal, gweler y dolenni defnyddiol canlynol:

<https://www.gov.uk/government/news/ofqual-decisions-on-awarding-vocational-and-technical-qualifications-this-summer>